wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

# Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

## Rhaglen ariannu'r Loteri Genedlaethol

Chwefror 2022

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

## Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd ac yn ystyried gwneud cais, gallwn helpu i sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi yn ystod y broses ymgeisio. Cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru i drafod sut y gallwn helpu.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Beth i'w wneud os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol

Os na allwch dderbyn arian loteri am unrhyw reswm, plis llanlwythwch llythyr gyda’ch cais ar lein yn egluro pam. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn ceisio ariannu eich prosiect drwy ffynonellau eraill.

# Croeso

Croeso i'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol, un o'n rhaglenni ariannu'r Loteri Genedlaethol.

Yma mae'r holl wybodaeth i chi lunio eich cais. Darllenwch ein canllawiau **Ariannu'r Loteri Genedlaethol: Beth mae angen ichi ei wybod wrth wneud cais**, gwybodaeth angenrheidiol y dylid darllen ochr yn ochr â'r ddogfen yma wrth ymgeisio. Mae yno'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am ein blaenoriaethau, cymhwysedd, costau priodol a chymorth ychwanegol sydd ar gael ichi allu cyflwyno eich cais gorau.

Mae'r ddau ddyddiad cau a gyhoeddwyd eisoes wedi pasio. Fodd bynnag, rydym yn ychwanegu dyddiad cau ychwanegol**. DARLLENWCH Y CANLLAWIAU HYN YN LLAWN - MAE YNA FLAENORIAETHAU A GWEITHGAREDD CYMWYS PENODOL AR GYFER Y DYDDIAD CAU YCHWANEGOL HWN**.

**Dyddiad Cau:**

**Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2022, 5:00pm**

**Bydd ceisiadau'n agor ar ddydd Mawrth, 15 Chwefror 2022**

Noder y byddwn yn ailagor y Gronfa ar gyfer ceisiadau gyda chanllawiau diwygiedig ym mis Ebrill 2022. **AR GYFER GWEITHGAREDD SY'N DECHRAU AR ÔL 31 GORFFENNAF 2022 BYDD RHAID YMGEISIO PAN YW'R GRONFA YN AILAGOR YM MIS EBRILL 2022.**

# Am y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

Diben y gronfa

- Cefnogi'r broses o ddatblygu syniadau, cydweithio a rhwydweithiau rhwng gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau celfyddydol yng Nghymru a phartneriaid rhyngwladol.

- Rhannu profiadau a sgiliau drwy'r celfyddydau mewn cyd-destun byd-eang.

- Codi proffil Cymru a'i chysylltiadau drwy'r celfyddydau yn fyd-eang.

Yn sgil y cyfyngiadau a'r ansicrwydd presennol sy'n gysylltiedig â theithio yn rhyngwladol, bydd y gronfa yn bennaf yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu perthnasau rhyngwladol, cydweithrediadau a rhwydweithiau trwy'r defnydd o blatfformau ac adnoddau digidol am nawr.

Gellir cynnwys teithio corfforol ochr yn ochr â gweithgareddau digidol, ond dylai fod gennych gynlluniau wrth gefn rhag ofn na fydd hyn yn bosibl.

Ar ôl dyfarnu'r arian, byddwn yn cefnogi pob ymgeisydd llwyddiannus i adolygu a datblygu ymhellach ei gynllun ar gyfer y prosiect a'i gyllideb fanwl. Byddwn yn trafod datblygu cynllun wrth gefn hefyd os bydd angen.

## Blaenoriaethau’r gronfa

Ar gyfer y dyddiad cau ychwanegol hwn, byddwn yn blaenoriaethu buddsoddiad yn y gweithgareddau sy’n cyfrannu at y canlyniadau canlynol, yn unol â’n Strategaeth Ryngwladol, Celf Cymru: yn bont o’n bro i’n byd.

- datblygu a phrofi syniadau newydd a ffyrdd o gydweithio â phartner(iaid) rhyngwladol, gyda golwg ar greu partneriaethau mwy hirdymor sydd o fudd i’r ddwy ochr
- rhannu gwersi a ddysgir, cysylltiadau a phrofiadau trwy gyfnewid sy’n fuddiol i’r ddwy ochr
- mwy o gyfranogiad mewn rhwydweithiau rhyngwladol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol

Rydym yn bwriadu blaenoriaethu'r gweithgaredd canlynol ar gyfer y dyddiad cau ychwanegol hwn:

- Gweithgaredd sy'n cyfrannu at y canlyniadau a ddisgrifir uchod sy'n DECHRAU CYN 31 Gorffennaf 2022.

  Gall gweithgaredd ddigwydd yn gorfforol, yn ddigidol neu’n hybrid. Mae rhaid cael partner rhyngwladol ac mae rhaid i weithgaredd ddechrau cyn 31 Gorffennaf 2022. Gall y partner fod wedi'i leoli unrhyw le y tu allan i'r DU.

  Ar gyfer gweithgaredd sy’n dechrau ar ôl 31 Gorffennaf 2022, bydd cyfle i wneud cais i’r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol pan fydd yn ailagor ym mis Ebrill 2022.

- Gweithgaredd sy 'n cyfrannu at y canlyniadau a nodir uchod ac sy'n datblygu cysylltiadau â phartner sydd wedi'i leoli yng Nghanada.

  Gall gweithgaredd ddigwydd yn gorfforol, yn ddigidol neu yn hybrid a bydd yn digwydd rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023.

  Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn cefnogi ffocws Cymru yng Nghanada (dan arweiniad Llywodraeth Cymru) a ffocws Canada yng Nghymru (dan arweiniad Uchel Gomisiwn Canada yn y DU) rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023.

- Gweithgaredd sy'n cyfrannu at y canlyniadau a nodir uchod ac sy'n datblygu cysylltiadau â phartner sydd wedi'i leoli yn Ffrainc.

  Gall gweithgaredd ddigwydd yn gorfforol, yn ddigidol neu'n hybrid a bydd yn digwydd rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cefnogi a) gweithgaredd ymchwil a datblygu a b) datblygu cysylltiadau â Llydaw.

  Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn cefnogi memorandwm cyd-ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru gyda Llywodraeth Llydaw, a datblygiad cyfnewid diwylliannol a Chysylltiadau.

Rydyn ni'n awyddus i gefnogi cydbwysedd o weithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau celfyddydol.

Beth na allwn ei gefnogi:

- Gweithgaredd nad yw'n cynnwys partner rhyngwladol.

  Gall partner rhyngwladol fod yn:

  - rhywun sy'n cydweithio yn y broses greadigol
  - trefnwyr rhwydwaith neu ddigwyddiad, (pan fo'r gweithgaredd a gynigir ar gyfer yr ymgeisydd o Gymru yw mynychu rhwydwaith neu ddigwyddiad celfyddydol a diwylliannol)

- Gweithgaredd sy'n dibynnu'n llwyr ar deithio corfforol a lle nad yw opsiwn digidol yn bosibl

- Prosiectau sydd yn canolbwyntio ar Gymru yn bennaf gydag elfen o gyfranogiad gan artist neu gwmni rhyngwladol (ar gyfer y prosiectau hyn, gweler cronfa Creu)

- Astudio neu hyfforddiant ffurfiol

- Mynychu digwyddiadau cystadleuol neu gyfranogi mewn digwyddiadau cystadleuol

- Gweithgaredd sydd eisoes wedi'i gynnal

- Y costau sy'n gysylltiedig â chwarantîn a phrofion Covid naill ai yn y DU neu mewn gwlad arall. Mae'r rhain yn cynnwys:

  - costau sy'n gysylltiedig â hunan-ynysu cyn ac ar ôl teithio (gan gynnwys unrhyw golled incwm)

- costau sy'n gysylltiedig â chwarantîn wrth gyrraedd eich gwlad gyrchfan
- costau sy'n gysylltiedig â chwarantîn wrth ddychwelyd i Gymru
- costau unrhyw ddirwyon am dorri'r rheolau cwarantîn
- costau a achosir gan Covid na ellir eu talu gan yswiriant teithio nac yswiriant proffesiynol.

Y mathau o brosiect rydyn ni am eu cefnogi:

| Rydym ni eisiau gweld... | Yn hytrach na... | Efallai bod hyn yn ymddangos fel... |
|---|---|---|
| Datblygu a phrofi syniadau newydd a ffyrdd o weithio mewn cydweithrediad â phartner neu bartneriaid rhyngwladol, gyda'r bwriad o gael partneriaethau rhyngwladol tymor hwy sy’n fuddiol i'r ddwy ochr.<br><br>Cyfnewid rhyngwladol sy'n rhannu dysgu, cysylltiadau a phrofiad er budd pawb.<br>Mwy o gyfranogiad mewn rhwydweithiau neu ddigwyddiadau | Prosiectau a grëwyd ac a arweinir yng Nghymru a allai gynnwys cyfranogiad artist neu gwmni rhyngwladol fel rhan o weithgaredd ehangach yng Nghymru.<br><br>Prosiectau sy'n gwahodd y byd i Gymru, yn bersonol neu'n ddigidol, i brofi'r celfyddydau a diwylliant o Gymru.<br><br>Cyfleoedd dysgu a datblygiad proffesiynol a | Cymryd rhan mewn prosiectau dan arweiniad artistiaid neu sefydliadau y tu allan i'r DU.<br><br>Prosiectau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gydweithrediadau creadigol sydd o fudd i'r ddwy ochr gydag artistiaid neu gwmnïau rhyngwladol sy'n digwydd naill ai y tu allan i'r DU neu'n ddigidol.<br><br>Cymryd rhan mewn digwyddiadau neu |

| | | |
|---|---|---|
| rhyngwladol, ffurfiol ac<br><br>anffurfiol. | ddarperir gan gwmni<br><br>rhyngwladol.<br><br>[Cyfeiriwch at ganllawiau<br>eraill cynllun Cyngor y<br>Celfyddydau] | rwydwaith a<br>gynhelir gan<br>bartneriaid<br>rhyngwladol<br>sy'n helpu i rannu<br>dysgu a<br>chreu cysylltiadau<br>newydd. |

## Pwy sy’n cael ymgeisio?

Sefydliadau celfyddydol a gweithwyr creadigol proffesiynol sydd wedi’u lleoli yng Nghymru.

Croesewir ceisiadau gan gydweithfeydd anffurfiol neu ffurfiol o artistiaid, yn ogystal â chan sefydliadau celfyddydol sy’n cefnogi nifer o weithwyr creadigol proffesiynol o Gymru drwy’r prosiect. Bydd angen i un partner sydd wedi’i leoli yng Nghymru gael ei enwi yn y cais, gan ysgwyddo’r cyfrifoldeb ariannol a’r cyfrifoldeb dros adrodd os dyfernir arian.

Gweler y nodiadau cymorth sy’n rhoi gwybodaeth fanwl am y meini prawf cymhwysedd a’r wybodaeth y mae ei hangen am y banc.

## Faint o arian sydd ar gael?

Cyfanswm cyllideb y gronfa yw £50,000.

Yr uchafswm y gellir ei roi drwy bob dyfarniad yw £5,000.

Gellir cynnwys ffioedd yn y gyllideb ar gyfer cyfranogwyr yng Nghymru neu’n rhyngwladol nad ydyn nhw’n cael cyflog am ymwneud â’r prosiect.

### Pryd i wneud cais

Dyddiad cau’r cyfle ychwanegol hwn:

**Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2022, 5pm GMT**

Bydd ceisiadau’n agor ar ddydd Mawrth, 15 Chwefror 2022.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwch yn derbyn penderfyniad cyn pen tair wythnos o'r dyddiad cau.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn eich cefnogi i adolygu a datblygu ymhellach eich cynllun ar gyfer y prosiect a'ch cyllideb fanwl, gan gynnwys datblygu cynllun wrth gefn os bydd angen.

Byddwn hefyd yn gofyn ichi ateb rhai cwestiynau am y prosiect 30 diwrnod ar ôl iddo ddod i ben.

Byddwn hefyd yn gofyn ichi anfon diweddariad ymhen blwyddyn. Bydd eich adborth a'ch profiadau'n hanfodol wrth inni ddatblygu ein dull o roi cefnogaeth yn y dyfodol.

Cofiwch fod angen i chi ganiatáu o leiaf 6 wythnos waith rhwng y dyddiad cau a dyddiad cychwyn eich prosiect. Ni fyddwn yn derbyn eich cais os daw dyddiad cychwyn eich prosiect cyn hyn.

Rhaid i'r ceisiadau fod yn gyflawn. Ni fyddwn yn derbyn gwybodaeth ategol bellach ar ôl i chi gyflwyno'ch cais (oni bai ein bod yn gofyn amdani fel rhan o'r broses ymgeisio).

## Pa gwestiynau fydd angen imi eu hateb?

Cyn paratoi cais, mae croeso ichi gysylltu â thîm Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i drafod unrhyw syniadau neu gwestiynau, neu i drafod y costau mynediad i chi neu unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o ddatblygu a darparu eich prosiect. Rydyn ni yma i'ch helpu drwy'r broses.

Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen gais ar-lein trwy borth ar-lein newydd Cyngor Celfyddydau Cymru; gellir dod o hyd i wybodaeth yma

Mae'r ffurflen gais wedi'i nodi fel a ganlyn:

**Cysylltu â chi**

Byddwn angen gwybodaeth am bwy y dylem gysylltu am eich cais. Bydd hyn yn cynnwys:

- Eich enw neu enw sefydliad a manylion cyswllt
- Dyddiad dechrau a gorffen y gweithgaredd
- Swm y gwnaed cais amdano
- Dewisiadau iaith
- Gwybodaeth cyfrif banc.

**Cynnig y Prosiect**

Yn yr adran hon byddwn yn gofyn ichi ddweud wrthym yn fanwl am eich gweithgaredd.

Rhowch grynodeb byr i ni o'ch prosiect. Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon mewn unrhyw gyhoeddusrwydd yr ydym ni cynhyrchu am eich prosiect [terfyn cymeriad 480],

Rhowch wybodaeth am y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'ch prosiect, gan ganolbwyntio ar sut a pham rydych chi'n cysylltu â phartner(iaid) rhyngwladol [y terfyn cymeriad ar y ffurflen yw 3000 ond gallwch uwchlwytho dogfen ychwanegol, os oes angen, er mwyn cwmpasu'r holl bwyntiau].

- Beth fyddwch chi'n ei wneud a pham ei fod yn bwysig i'ch ymarfer.
- Beth rydych chi'n gobeithio'i gyflawni neu ddysgu o weithio gyda'ch partner(iaid) rhyngwladol neu o gymryd rhan yn y digwyddiad neu'r rhwydwaith rhyngwladol a ddewiswyd.
- Enw a chysylltiad â'ch partner(iaid) rhyngwladol
- Y wlad / gwledydd rydych chi'n cysylltu â nhw
- Gwybodaeth fer am y partner(iaid) rhyngwladol a'ch perthynas â nhw. Os yw hwn yn brosiect creadigol, disgrifiwch yn fyr sut y bydd yr holl bartneriaid yn elwa.
- Os byddwch chi'n cefnogi grŵp o ymarferwyr creadigol unigol yng Nghymru, sut y byddwch chi'n dewis y cyfranogwyr a sut rydych chi'n bwriadu eu cefnogi.
- Os ydych chi'n cynnwys teithio o fewn eich cynlluniau, beth yw’r rhesymeg dros deithio a beth yw eich cynlluniau amgen os nad yw’n bosib deithio.
- Beth allai'r gwaddol bosibl fod.

## Celfyddyd

Bydd arnom angen gwybodaeth am yr ystod o gelfyddydau a fydd yn rhan o'ch prosiect.

## Mathau o weithgarwch

Bydd arnom angen gwybodaeth am eich targedau prosiect, gan gynnwys nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau, gweithdai, a chynulleidfaoedd/mynychwyr.

## Iaith

Byddwn yn gofyn i chi yr effaith a gaiff y prosiect ar y Gymraeg. Byddwn yn eich gofyn i ddisgrifio’ch cynlluniau gan ddefnyddio’r geiriau canlynol:

Cadarnhaol, Negyddol neu Niwtral

## Lleoliad

Byddwn yn gofyn i chi ble bydd eich prosiect yn digwydd?

Os yw'r gweithgaredd yn ddigidol, rhowch leoliad y cyfranogwyr yng Nghymru. Gallwch hefyd dicio ‘y tu allan i’r DU’.

**Cydraddoldeb**

Rhowch wybodaeth monitro cydraddoldeb i ni am eich prosiect.

**Dogfennau ategol**

Bydd angen rhywfaint o ddogfennaeth benodol arnom i gefnogi'ch cais:

1. Llythyr byr neu e-bost gan eich partner rhyngwladol sy'n nodi eu cefnogaeth i'ch prosiect a'u hymrwymiad i weithio gyda chi.

   Os ydych chi'n gwneud cais am gymorth i gymryd rhan mewn digwyddiad neu rwydwaith, mae dolen i'r wefan berthnasol yn ddigonol.

2. Dolen i wybodaeth ar-lein am eich gwaith neu CV.
3. Ffurflen gyllideb yn manylu ar yr holl wariant ac incwm (arian parod a chymorth mewn nwyddau), gan ddefnyddio'r templed gyllideb sydd ar gael i lawrlwytho yma.

4. Dogfen barhad sy'n dweud wrthym am eich prosiect, pe bai angen lle ychwanegol arnoch, i gwmpasu'r pwyntiau o dan yr adran 'Cynnig y Prosiect'.

## Beth os oes angen cymorth arnaf neu gefnogaeth i gael mynediad?

Cysylltwch â ni

+44 29 2044 1300

info@wai.org.uk

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

@WAICymruWales

Byddwn hefyd yn cynnig dwy sesiwn wybodaeth y gellir archebu lle ar eu gyfer nhw cyn y dyddiad cau.